



DARLLENWCH
Luc 5: 1 - 11



ADNOD
ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 3: 23

Gwers 2 Bywyd Pedr - Y ddalfa fawr

Mae tyrfaoedd yn casglu ar adegau arbennig neu i weld rhyw berson adnabyddus. Yma ar lan Llyn Galilea (ambell dro yn cael ei alw'n Genesaret) roedd tyrfa fawr yn gwasgu at yr Arglwydd Iesu er mwyn gwrandao arno.

C Beth oedd Ef yn ei ddysgu? Tanlinellwch yr ateb cywir.

Cyfreithiau Iddewig Storiâu Gwerin Gair Duw Gorchmynion Rhufeinig

1

Gair Duw i ni yw'r Beibl

C Atebwch CYWIR neu ANGHYWIR i'r canlynol:-

Fe welodd Iesu dri chwch ar lan y dŵr.

Roedd y pysgotwyr yn golchi eu rhwydau.

Fe aeth Iesu i mewn i gwch Simon Pedr.

Fe eisteddodd a dysgu'r bobl o'r cwch.

4

Ar ôl i Iesu orffen dysgu'r bobl, fe ddywedodd wrth Simon Pedr am fwrw i'r dŵr dwfn a gollwng ei rwydau.

C Ysgrifennwch ateb Simon Pedr wrth Iesu:



2

Er bod Simon Pedr yn sicr wedi blino ac wedi ei siomi, roedd yn fodlon ufuddhau i orchymyn yr Arglwydd Iesu.

Mae hi weithiau'n anodd bod yn ufudd Iddo, ond yn y diwedd dyna'r peth gorau i'w wneud.

C Sylwch ar beth a ddigwyddodd ar ôl i Pedr ufuddhau!
Gorffennwch y brawddegau canlynol.



Fe ddalïon nhw
 nifer _____.
 _____ ar eu _____.

_____ y ddau gwch. Fe ddechreuodd y cychod _____.

Roedden nhw i gyd wedi synnu at yr holl bysgod a ddalïon nhw, ond Simon Pedr oedd yr un a sylweddolodd mor fawr a nerthol yw yr Arglwydd Iesu.

C Ysgrifennwch yr hyn a ddywedodd
Simon Pedr pan welodd y pysgod.


Yng nghwmni Person mor fawr â'r Arglwydd Iesu, fe sylweddolodd Pedr ei fod yn bechadur. Yn hyn o beth nid ef yw'r unig un.

C Yn ôl yr Adnod Allweddol faint o bobl sydd wedi pechu?
Rhowch gylch am yr ateb cywir.

Y mwyafrif Rhai Un Pawb Neb

Felly mae'r Beibl yn ein dysgu bod pob un ohonon ni yn bechadur!

C Defnyddiwch y Darlleniad
o'r Beibl i gael enwau'r
pysgotwyr oedd yn
pysgota ar y llyn.



C Ar ôl darllen adnod 10 ysgrifennwch yn eich geiriau eich hunain
beth fyddai gwaith newydd Pedr.

Fe fedr yr Arglwydd Iesu eich defnyddio CHI os ydych chi'n barod i
edifarhau am eich pechod ac ymddiried ynddo.